# JISA Nodweddion Allweddol

keyfacts®



SWANSEA
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

fscs
Protected

# Eich helpu i benderfynu

**Rydym yn darparu'r wybodaeth bwysig hon i'ch helpu chi i benderfynu a yw ein Cyfrif Cynilo Unigol Arian Parod IAU (JISA Arian Parod) yn iawn i chi.**

Dylech ddarllen y ddogfen hon yn ofalus er mwyn i chi ddeall beth yr ydych yn ei brynu, ac yna'i chadw'n ddiogel er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol.

- Mae'r Ddogfen Nodweddion Allweddol hon yn rhoi gwybodaeth i chi ar brif nodweddion, buddiannau a pheryglon ein JISA Arian Parod.
- Dylech hefyd ddarllen ein:
  - Taflen cynnyrch JISA Arian Parod sy'n manylu am delerau ac amodau penodol y cynnyrch;
  - Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Gweithredu Cyfrifon Cynilo; a
  - Taflen Dewis o Gyfrifon Cynilo.

## Cwestiynau ac Atebion

**Beth yw'r JISA Arian Parod?**

- Mae'r JISA Arian Parod neu'r Cyfrif Cynilo Arian Parod Unigol Iau yn gynnyrch cynilo treth-effeithiol sy'n eich galluogi i wneud taliadau cyson a / neu un-tro i gyfrif cynilo gyda ni, yn amodol ar derfynu uchaf blynyddol a osodir gan y Llywodraeth.

**Beth yw'r buddion?**

- Mae'n eich galluogi i dderbyn llog di-dreth ar eich cynilon.
- Chi sy'n dewis pa mor aml a faint y byddwch yn talu i mewn i'r JISA Arian Parod. Pan fyddwch chi'n gwneud taliadau cyson i'r JISA Arian Parod, gallwch ddechrau / gorffen neu amrywio'r taliadau hyn ar unrhyw bryd.

**Beth yw'r peryglon?**

- Ni allwn sicrhau beth fydd gwerth y JISA Arian Parod yn y dyfodol. Ceir nifer o resymau dros hyn gan gynnwys:
  - gall y gyfradd llog amrywiol sy'n berthnasol i'r JISA Arian Parod newid o bryd i'w gilydd.
  - Gallai unrhyw newidiadau i'r rheolau treth, er enghraifft, gallai newid leihau'r driniaeth drethiannol ffafriol y mae JISAs Arian Parod yn eu derbyn ar hyn o bryd.

**Pwy sy'n gallu agor JISA Arian Parod?**

- Plant cymwys sy'n gallu agor JISA Arian Parod. Mae plentyn yn gymwys i agor JISA Arian Parod os ydyw, pan wneir y cais am gyfrif:
  - yn iau na 18 oed
  - os cawsant eu geni ar neu ar ôl 3 Ionawr 2011 neu os nad oes ganddynt gyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plentyn ac
  - mae'n breswylydd ac yn breswylydd arferol yn y DU ar gyfer pwrpasau treth neu'n gyflogai'r Goron sy'n gwasanaethu dramor, neu'n briod â neu mewn partneriaeth sifil â chyflogai'r Goron neu'n ddibynnol ar gyflogai'r Goron.
- Rhaid i'r person sy'n gwneud cais am JISA Arian Parod fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn un o'r canlynol
  - y plentyn a fydd yn dal y cyfrif
  - rhiant naturiol y plentyn
  - rhywun sydd wedi mabwysiadu'r plentyn yn gyfreithiol
  - rhywun sydd wedi derbyn cyfrifoldeb rhianta gan y llysoedd

  neu
  - Awdurdod Lleol sydd â gofal rhianta dros blentyn yn ei ofal.
- Ni all y JISA fod yn gyfrif ar y cyd
- Y lleiafswm ar gyfer agor JISA Arian Parod yw £1.00

**Faint sy'n gallu cael ei fuddsoddi mewn JISA Arian Parod?**

- Gall unrhyw un dalu i mewn i JISA Arian Parod, does dim rhaid iddynt fod yn breswylydd y DU, ac nid oes raid iddynt fod yn perthyn i'r plentyn.  Mae unrhyw arian a delir i JISA Arian Parod yn rhodd i'r plentyn ac ni eillir ei ad-dalu o'r person sy'n gwneud y taliad (ble nad nhw yw'r plentyn) os ydynt yn newid eu meddwl ar ddyddiad diweddarach.
- Mae cyfyngiadau ar faint y gellir ei dalu i mewn i JISA Arian Parod ymhob blwyddyn dreth (h.y. o 6 Ebrill tan 5 Ebrill). Yr uchafswm y gellir ei dalu i mewn i JISA Arian Parod yn y flwyddyn dreth bresennol yw £9,000.
- Yn wahanol i Gyfrif Cynilo Unigol Arian Parod (ISA Arian Parod) i oedolion, ble bydd buddsoddwr yn gallu agor a thalu i mewn i ISA Arian Parod newydd ymhob blwyddyn dreth, dim ond hyd at ddau JISA Arian Parod (dim mwy nag un JISA Arian Parod ac un cyfrif cynilo unigol iau stociau a

chyfranddaliadau) y gall plentyn ei gael gydol eu plentyndod.

**Pa log fyddaf i'n ei ennill ar y JISA Arian Parod?**

- Telir llog ar gyfradd amrywiol ar ein JISA Arian Parod. I weld cyfraddau llog presennol, edrychwch ar ein taflen Dewis o Gyfrifon Cynilo os gwelwch yn dda, sydd ar gael o un o'n swyddfeydd cangen, a cheir manylion ein cyfraddau llog i gynilwyr ar ein gwefan www.swansea-bs.co.uk.

**Am ba hyd y gallaf gadw'r JISA Arian Parod?**

- Bydd y JISA Arian Parod yn peidio â bod yn JISA Arian Parod ar achlysur un o'r canlynol:
  - adeg marwolaeth neu salwch terfynol y plentyn
  - ar gyfarwyddyd uniongyrchol Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (ble mae'r JISA Arian Parod yn aneffeithiol)

  neu
  - y plentyn yn cyrraedd eu pen blwydd yn 18 (cysylltir â'r plentyn yn fuan cyn eu pen blwydd yn 18 i drafod y dewisiadau cynilo sydd ar gael i'r dyfodol). Os na ellir cysylltu, neu os na chyfathrebwyd dull amgen o gynilo, trosglwyddir y balans i ISA sy'n bodoli eisoes (os yw'n berthnasol) neu ISA 'oedolyn' newydd gyda ni.

**Ydw i'n gallu codi arian o'r JISA Arian Parod?**

- Ni chaniateir codi arian o'r JISA Arian Parod oni bai am
  - adeg cau'r JISA Arian Parod neu
  - pan fydd hawliad salwch terfynol wedi'i wneud a'i dderbyn ar ran y plentyn

**Ydw i'n gallu newid fy meddwl?**

- Os yw deiliad y cyfrif yn newid ei feddwl o fewn y 14 diwrnod cyntaf ar ôl agor y JISA Arian Parod, gall ddiddymu'r JISA Arian Parod drwy roi gwybod i ni yn ystod y cyfnod hwn drwy ysgrifennu atom neu ffonio un o'n swyddfeydd cangen (manylion drosodd). Fel arall, gallwch anfon e-bost atom at info@swansea-bs.co.uk. Os na ddiddymir y JISA Arian Parod, yna bydd ef a'r plentyn yn ymrwymedig i'w delerau ac amodau.

## Sut i gwyno

- Rydym wedi ymroi i gynnal y safonau uchaf wrth ddelio â chi. Serch hynny, pe baech chi'n teimlo fod gennych gŵyn yn codi o ddefnyddio ein cynnyrch neu wasanaethau, mae gennym weithdrefn fewnol ar gyfer delio â chwynion yn deg ac yn gyflym. Am ragor o wybodaeth edrychwch ar ein Taflen Wybodaeth Gweithdrefnau Cwynion Mewnol, sydd ar gael o ofyn amdano.
- Os nad ydych, ar ôl dilyn ein gweithdrefnau cwyno mewnol, yn dal yn fodlon â'n penderfyniad terfynol ynghylch eich cwyn, fe all y byddwch eisiau cyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol am ein bod ni'n aelod o'r Cynllun Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol. Gellir cael gwybodaeth am y cynllun hwn, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr Ombwdsmon, oddi wrthym ni drwy ofyn amdanynt, a chânt eu cyflenwi'n awtomatig fel rhan o'n gweithdrefnau cwyno mewnol.

## Iawndal

- Rydym yn aelod o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol a gall y bydd iawndal ar gael o dan y cynllun hwn os nad ydym yn gallu cwrdd â'n rhwymedigaethau. Cyfyngir taliadau o dan y Cynllun hwn i 100% o'r £85,000 cyntaf o gyfanswm cynilon buddsoddwr gyda ni. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun gennym o ofyn amdano.

## Rhagor o wybodaeth.

**Sut i gysylltu â ni:**
Gwelwch ar draws y tudalen.



SWANSEA
BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923

**www.swansea-bs.co.uk**

SBS (CJISAKF 0424)

Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

**Prif Swyddfa**
11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk

**Caerfyrddin**
13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Y Bont-faen**
75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Y Mwmbwls**
496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Abertawe**
1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk